

Helpwch ni i siapio dyfodol Llyfrgell Deithiol ac i'r Cartref Conwy

Yn 2013 fe wnaethom gynnal ymgynghoriad ar ein Llyfrgell Deithiol ac i'r Cartref. Yn dilyn adborth, fe wnaethom gynyddu nifer manau aros y Llyfrgell Deithiol mewn ardaloedd gwledig ac yn ein cymunedau mwya difreintiedig. Nid oedd fawr o newid i'r Llyfrgell i'r Cartref.

Mae'r Llyfrgelloedd Teithiol a Chartref yn rhoi gwasanaeth i sawl aelod bregus neu ynysig ein cymunedau. Fodd bynnag, mae'r gost o redeg y gwasanaethau hyn yn uchel, mae'r cerbydau'n hen ac annibynadwy ac mae ein cyllid yn lleihau. Rydym felly yn gofyn i breswylwyr Conwy sut y dylem ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei wneud rhwng 28 Ionawr ac 10 Mawrth 2019, a hoffem glywed eich safbwyntiau a'ch syniadau.

Ar hyn o bryd fe ddarperir Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Conwy drwy:

5 Llyfrgell Ardal:

Abergele
Bae Colwyn
Conwy
Llandudno
Llanrwst

5 Llyfrgell Gymunedol:

Cerrigydrudion
Bae Cinmel
Llanfairfechan
Penmaenmawr
Bae Penrhyn

Llyfrgell i'r Cartref
Llyfrgell Deithiol
Llyfrgell Ar-lein

Llyfrgell Deithiol


Mae Llyfrgell Deithiol Conwy yn dod â llyfrau, llyfrau llafar a gwybodaeth i gymunedau ledled Conwy. Ar hyn o bryd mae ganddo 120 o fannau aros, gan ymweld â phob un bob 4 wythnos.

Er bod nifer y manau aros wedi cynyddu yn dilyn ymgynghoriad blaenorol, mae ymweliadau â'r Llyfrgell Deithiol wedi parhau i fod yn eithaf cyson dros y 5 mlynedd diwethaf, gyda 6,338 o ymweliadau yn 2017/18. Mae rhai llefydd ag 1 neu ddim cwsmeriaid rheolaidd.

Mae benthyciadau llyfrau blynyddol yn 20,180 (2017/18): gostyngiad o 17% dros 5 mlynedd.

Mae'r Llyfrgell Deithiol bellach yn 13 oed, mae'r cerbyd yn annibynadwy ac mae angen un newydd.

Y gost o ddarparu'r gwasanaeth Llyfrgell Deithiol yn 2017/18 oedd £36,240, neu £5.72 fesul ymweliad, o'i gymharu â chyfartaledd o £2.41 ar draws llyfrgelloedd Conwy.



Conwy - Sir flaengar sy'n creu cyfleoedd

Conwy - a progressive County creating opportunity

Llyfrgell i'r Cartref

Dyma'r gwasanaeth i breswylwyr Conwy sydd methu ymweld â llyfrgell ardal neu gymunedol, neu ddefnyddio'r Llyfrgell Deithiol, oherwydd eu bod mewn oed neu'n fregus. Mae'r Llyfrgell i'r Cartref yn ymweld â chwsmeriaid yn eu cartrefi bob 4 wythnos. Mae'n cynnig mynediad at amrediad llawn o stoc llyfrgelloedd Conwy yn seiliedig ar ddewisiadau darllen unigol cwsmeriaid.

Yn Nhachwedd 2018, mi oedd 141 o gwsmeriaid Llyfrgell i'r Cartref.

Mae nifer yr ymweliadau (1,718 yn 2017/18) wedi lleihau o 28% yn y 5 mlynedd diwethaf, er bod benthyciadau (27,082 yn 2017/18) wedi aros yn gyson.

Mae'r fan sy'n darparu'r gwasanaeth yn 9 mlwydd oed erbyn hyn a bydd angen un newydd yn fuan.

Cost y gwasanaeth Llyfrgell i'r Cartref yn 2017/18 oedd £27,548.74, neu £16 fesul ymweliad.

Opsiynau

Mae nifer o opsiynau ar gael i ni, yn cynnwys:

- 1 Newid dim a pharhau i ddarparu teithiau Llyfrgell Deithiol ac i'r Cartref presennol. Wrth i'r cerbydau ddod yn fwy annibynadwy, mi wneith arwain at golli gwasanaethau.
- 2 Tynnu'r ddarpariaeth Llyfrgell Deithiol a chynnig y gwasanaeth Llyfrgell i'r Cartref i'r rhai sy'n bodloni'r meini prawf ar ei gyfer, neu'n gallu ymweld ag adeiladau llyfrgell / defnyddio'r Llyfrgell Ar-lein.
- 3 Cyfuno darpariaeth y gwasanaethau Teithiol a Chartref. Cynnig gwasanaeth y Llyfrgell Deithiol i'r cymunedau hynny sy'n bell o adeiladau llyfrgell ac sydd â chlodiant cyhoeddus cyfyngedig. Gweler yr Atodiad am lefydd y gellir eu cadw neu eu tynnu os dewisir Opsiwn 3.

Meini prawf arfaethedig ar gyfer y Llyfrgell Deithiol

- Bydd y Llyfrgell Deithiol yn rhoi gwasanaeth gwybodaeth a darllen i gymunedau sydd o leiaf 3 milltir o'r llyfrgell agosaf neu lle mae cludiant cyhoeddus cyfyngedig / dim cludiant cyhoeddus
- Bydd yn ymweld unwaith bob 4 wythnos
- Bydd yn aros am fwy o amser mewn lleoliadau cymunedol canolog, i ganiatáu mwy o amser ar gyfer darparu gwybodaeth
- Yn dilyn cau'r gwasanaeth Llyfrgelloedd i Ysgolion, ac os bydd adnoddau'n caniatáu, bydd y gwasanaeth yn cael ei gynnig i ysgolion sydd o leiaf 3 milltir o'r llyfrgell agosaf
- Bydd manau aros y Llyfrgell Deithiol yn cael eu hadolygu os oes llai na 2 gwsmer rheolaidd.

Meini prawf ar gyfer y Llyfrgell i'r Cartref

- Y rhai hynny sydd ddim yn gallu gadael eu cartref am resymau corfforol / iechyd
- Y rhai hynny sy'n gaeth i'w cartref a heb unrhyw deulu neu ffrindiau sy'n gallu casglu llyfrau iddynt
- Y rhai hynny sy'n methu defnyddio cyfleusterau llyfrgell gan eu bod yn gofalu am rai sy'n gaeth i'w cartref
- Bydd ceisiadau'n parhau i gael eu hasesu yn unigol.

Beth y gallaf ei wneud?

Cymerwch 5-10 munud i lenwi'r holiadur amgaeedig a dywedwch wrthym beth rydych yn ei feddwl.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd eich adborth yn rhoi dealltwriaeth gwell o sut y gallwn barhau i ddarparu'r gwasanaethau Llyfrgell Deithiol ac i'r Cartref gyda llai o gyllid yn y cymunedau sydd eu hangen fwyaf.